

## **Beth mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn feddwl am greu “cofrestrau” neu “farcio nodiadau” pobl sy’n ymwneud â digwyddiadau amgylcheddol fel y gellir monitro canlyniadau iechyd?**

Yn ystod ac yn dilyn digwyddiadau amgylcheddol (fel tanau ar raddfa fawr sydd wedi achosi mwg sylweddol), mae pobl oedd gerllaw ac sydd wedi eu peryglu gan rywbeth a all effeithio ar eu hiechyd yn aml yn gofyn a fyddwn yn “monitro” neu’n “eu tracio” yn y dyfodol.

Mae yna nifer o bethau sy’n ein helpu i benderfynu a ddylem wneud hyn.

Rydym yn meddwl a fydd bod ar gofrestr yn newid y driniaeth fydd rhywun yn ei derbyn os oes ganddynt broblem iechyd. Byddai pobl ar gofrestr yn gobeithio y byddai hyn yn golygu diagnosis cynt o broblem a thriniaeth gynt neu well os oes yna broblem.

Ond mae llawer o gyflyrau iechyd yn gyffredin a hyd yn oed mewn pobl agos at ddigwyddiad, gall problem iechyd fod o ganlyniad i’r digwyddiad neu ddim. Po fwyaf o amser sydd rhwng y digwyddiad ac effaith ar iechyd, po fwyaf anodd yw gallu dweud bod digwyddiad penodol wedi achosi problem benodol. Ond hyd yn oed os oes yna amser byr rhwng digwyddiad ac effaith ar iechyd, mae’n parhau’n anodd **iawn** dweud fod y broblem honno yn bendant oherwydd digwyddiad.

Rydym hefyd angen meddwl yn ofalus iawn ynglŷn â beth mae bod ar gofrestr yn gallu ei olygu i bobl. Gall rhai pobl boeni am fod ar gofrestr o’r fath. Gall poeni achosi niwed i iechyd a gall hyn i rai bobl, fod yn llawer mwy na niwed corfforol y digwyddiad ei hun.

Rydym hefyd yn gwybod y gall bod ar gofrestr o’r fath olygu fod rhai pobl yn cael anhawster cael yswiriant neu’n gorfod talu premiymau uchel iawn am yswiriant. Eto, gall hyn achosi gofid, fel yr uchod, yna gall achosi problemau iechyd corfforol.

Mae’n bosibl y bydd yna broblemau rhwng pobl sydd wedi eu cynnwys ar y gofrestr oherwydd digwyddiad hefyd a’r sawl sydd ddim. Efallai na fydd cymdogion neu ffrindiau agos sy’n byw yn yr un gymuned wedi eu cynnwys ar y gofrestr. Gallai hyn achosi teimlad gwael a phoeni, ac eto arwain at broblemau iechyd.

Rydym hefyd yn meddwl lle mae’r “marc” yn sefyll o fewn y GIG; ai mewn cofnodion meddyg teulu yn unig neu gofnodion ysbyty hefyd? Os bydd cofnod wedi’i farcio, mae angen gwirio bod y cofnod cywir wedi’i farcio, yn ogystal â phwy sy’n cael ei weld. Byddem angen sicrhau bod y bobl gywir yn gweld y nodyn ac nad yw pobl nad ydynt angen ei weld yn ei weld. Mae yna faterion tebyg eraill i’w hystyried hefyd.

Felly, i baratoi cofrestr, rydym angen sicrhau bod y manteision yn fwy na’r peryglon.